

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg Ebrill 2023

Presennol- Mari E M Mathews Cadeirydd, Anna Brown, Janet Charlton, Ffiona Jones, Catherine Williams, Cyng Elizabeth Roberts Conwy CBC, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Neil Pringle

Datgan diddordeb Datganwyd diddordeb gan Mari E M Mathews yng nghofnod [2.8 Hanging Pizzeria ]a ni chymerodd unrhyw ran tra bu'r mater yn cael ei drafod.

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Fawrth 2023

Materion yn codi

[1] Cymuned Di Plastig

Croesawyd Michelle Bayliss i'r cyfarfod a chafwyd adroddiad ganddi am fwriad y Gymdeithas Twristiaeth Betws-y-Coed i greu cymuned di plastig. Croesawyd y fenter gan yr aelodau, a chynigwyd gan Catherine Williams ac eiliwyd gan Ffiona Jones bod y Cyngor yn cefnogi'r fenter.

Y Cyngor hefyd i ethol aelod i wasanaethau ar y grŵp Cymuned Di Plastig.

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Pont Droed/ Pont-y-Pair

Dyweddodd y clerc ei fod yn disgwyl gair gan yr ymgynghorwyr ynglyn ac astudiaeth dichonoldeb.

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Materion Parcio Bro Gethin

Nodwyd y ddogfen tender a baratowyd gan y Cadeirydd.

[1.4] Llystyfiant Pont-y-Pair

Nodwyd bod prif wariant Cyngor BS Conwy wedi ei ohirio hyd nes bydd blaenoriaeth wedi ei wneud i adolygiad i'r brif raglen cyfalaf.

[1.5] Dyn mewn Fan

Dyweddodd y clerc bod taflen waith yn cael ei pharatoi gan Edward Jones APCE.

[1.6] Swyddog Rheoli Prosiect

Eglurodd y Cadeirydd bod swydd ddisgrifiad y Swyddog Prosiect wedi ei gwblhau. Y Cadeirydd a'r clerc hefyd i drafod swydd ddisgrifiad Clerc y Cyngor

[1.7] Clwb Peldroed Betws/ Codi Uchder y Ffens / Ystafelloedd Newid

Nodwyd llythyr o ddiolch gan Tony Godbert am gyfraniad o £600.00 gan y Cyngor

[1.8] Safle We'r Cyngor

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.9] Hen Eglwys Saint Mihangel/ Cyflwr y fynwent

Dywedodd y Cyng Janet Charlton bod y fynwent yn gymharol daclus ar hyn o bryd.

[2] Mynwent Erw Hedd

Nodwyd ateb Gary Williams [Cyngor B S Conwy] ynglŷn â threfniadau ar gyfer claddu yn y fynwent. Cadarnhaodd y bydd yn cysylltu'n bellach.

[2.1] Gwelliannau Glan yr Afon Pont-y-Pair

Eglurodd y clerc bod y gwaith ychwanegol wedi ei ohirio ar hyn o bryd

[2.2] Cae Chwarae Pentre' Du

Penderfynwyd derbyn pris £720.00 a ychwanegiad TAW gan Gary Pierce i osod y byrddau yn y cae chwarae. Cytunodd Cyng Elisabeth Roberts a Catherine Williams i gwrdd yn y cae i benderfynu eu lleoliad.

[2.3] Ms Beth Thomas

Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Ms Thomas ynglŷn â'i aelodaeth o'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd felly bod y sedd yn wag. Y clerc i gysylltu gyda Chyngor BS Conwy ynglŷn â'r ddwy sedd wag.

Y Brif Agenda

[2.4] Teithio Llesol

Nodwyd bod cyfarfod [Zoom] Teithio Llesol wedi ei drefnu ar gyfer 26ain Ebrill 2023.

[2.5] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Mawrth 2023.

[b] Eglurodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynnol wedi gostwng yn gymharol i gyfnod mis Mawrth 2022.

[2.6] Aseiad Risg Neuadd Goffa/Rhaeadr Ewynnol

Y clerc i atgoffa Cyngor BS Conwy ynglŷn ar ymholiad yn ymwneud ac asbestos o fewn y neuadd

[2.7] Byrddau'n Cysgodi Lleoliad Gwag wrth Westy'r Pont-y-Pair.

Nodwyd ymateb gan y Parc Cenedlaethol bod cyflwr y byrddau'n dderbyniol ar hyn o bryd. Y clerc i anfon at Ultimate Outdoors i geisio cael eu tacluso.

[2.8] Hanging Pizzeria Ffordd yr Orsaf

Cyfeiriodd y clerc at lythyr yn datgan pryder bod lleoliad o flaen y caffi wedi ei gau ac nad oedd yn bosib i'r cyhoedd yn enwedig yr henoed groesi'r ffordd yn ddiogel.

Cytunodd y Cyng Elisabeth Roberts gysylltu gyda Jonathan Cawley APCE ynglŷn a'r mater.

[2.9] Jui Jitsu

Nodwyd nad oedd Mr Amaan Abassi wedi derbyn ateb gan Gyngor Chwaraeon Cymru a hefyd Cyngor BS Conwy i'w gais am grant tuag at wersi Jui Jitsu. Y clerch i anfon gair bod y Cyngor Cymuned yn bwriadu creu cronfa fechan a fydd yn agored i fudiadau lleol geisio grant.

[3] Llogi'r Neuadd Goffa

Gan ystyried bod costau gwres a golau wedi cynyddu, penderfynwyd gosod y prisiau canlynol i logi'r neuadd;

Unigolyn neu fudiad lleol o fewn y gymuned £20.00 am fore, prynhawn/nos

Unigolyn neu fudiad oddi allan i'r gymuned £25.00 yr awr. Lleiafswm cost 2 awr.

[3.1] Nodwyd y wybodaeth canlynol

APCE Adroddiad Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Eryri.

Mari E M Mathews, Cadeirydd